# Adroddiad Monitro'r Safonau Cymraeg

# Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2018

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, sef 31 Awst 2018.

Hyd at 1 Ebrill 2018 bu'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg a gosododd y Cynllun hwnnw seiliau cadarn ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith. Mae'r prosesau a fabwysiadwyd yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn parhau ac wedi'u cryfhau, a phrosesau newydd wedi'u mabwysiadu hefyd i sicrhau cydymffurfio â gofynion newydd y Safonau Iaith. Cyfeiria'r adroddiad hwn at brosesau newydd a roddwyd ar waith ers 1 Ebrill 2018.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, Pwyllgor Cynllunio Strategol y Brifysgol a Bwrdd y Llywodraethwyr.

**Cyfathrebu Gofynion Safonau'r Gymraeg**

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau cynhaliwyd nifer o gyflwyniadau cyffredinol â staff er mwyn egluro'r cefndir a'r gweithdrefnau statudol ynghyd â sut i gydymffurfio.

Diwygiwyd adran yr Uned Gymraeg o wefan y Brifysgol i gynnwys tudalennau penodol am y Safonau Iaith, cwestiynau a holir yn aml a nifer o ganllawiau penodol ar gyfer y Safonau:

- Ateb y Ffôn
- Gohebiaeth
- Llofnod E-bost
- Cyfarfodydd (y cyhoedd a myfyrwyr)
- Cadeirio Cyfarfod Dwyieithog
- Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau
- Graddio/Gwobrwyo Penderfyniadau Polisi
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Contractau a Thendro
- Grantiau a Chymorth Ariannol

Wrth i'r Safonau gael eu gweithredu ar draws y Brifysgol canfuwyd bod angen diwygio ambell i ganllaw am fod angen rhagor o eglurder neu i ychwanegu esiampl berthnasol, ac felly er bod y canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi ar y wefan a'u dosbarthu ar bapur mewn cyflwyniadau ac wrth roi cyngor i unigolion, maent yn parhau'n ddogfennau byw a adolygir yn gyson.

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

| Gohebiaeth Ysgrifenedig (Safonau 1 – 7) |
|---|

Mae'r Brifysgol yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ychwanegwyd y cymal isod at ohebiaeth swyddogol y Brifysgol ac at bob e-bost a anfonir gan unedau ac ysgolion.

***Mae Met Caerdydd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.***

***Cardiff Met welcomes correspondence in English and Welsh and we will ensure that we communicate with you in the language of your choice, whether that's English, Welsh or bilingual as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.***

| Cyfathrebu Dros y Ffôn (Safonau 8 – 21) |
|---|

Mae'r staff sy'n gweithio ar brif linellau ffôn y Brifysgol yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithiog ac fe luniwyd a darparwyd cyfarwyddiadau ar gyfer staff ly Brif Switsfwrdd a Gwasanaethau Gwybodaeth. Ceir canllaw cyffredinol ar gyfer sut i ymdrin â galwadau yn Gymraeg ar ein gwefan.

Fel rhan o'r cyflwyniadau cyffredinol â staff y Brifysgol, fe gyflwynwyd sesiwn ar sut i ddelio ag ymholiadau dwyieithog dros y ffôn.

| Cyfarfodydd (Safonau 24 – 34) |
|---|

Lluniwyd canllaw ar gyfer cyfarfodydd a sut i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod gan yr Uned Gymraeg. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i archebu cyfieithydd ar y pryd er mwyn sicrhau y gall mynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r canllaw hwn ar gael ar ein gwefan.

| Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 35 – 38) |
|---|

Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus trafodwyd y safonau hyn gyda thîm digwyddiadau'r Brifysgol, a cynhyrchir unrhyw ddeunyddiau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

| Darlithoedd Cyhoeddus (Safonau 40 – 40A) |
|---|

Tîm digwyddiadau'r brifysgol sy'n gyfrifol am gyhoeddusrwydd darlithoedd cyhoeddus ac maent yn ymwybodol o ofynion y Safonau Iaith.

## Seremonïau Graddio (Safonau 41 – 42)

Mae'r wybodaeth am drefn digwyddiadau seremonïau graddio'r Brifysgol yn ddwyieithog yn flynyddol.

## Cyhoeddiadau (Safonau 43 – 52)

O dan amodau'r Cynllun Iaith Gymraeg gosodwyd gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd/myfyriwr yn ddwyieithog ac nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ansawdd a chywirdeb. Mae'r gweithdrefnau hynny'n parhau.

## Ffurflenni (Safonau 53 – 54)

Mae pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd a/neu myfyrwyr yn ddwyieithog. Os cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ein harfer yw anfon y ffurflenni yn newis iaith y myfyriwr neu'r aelod o'r cyhoedd.

## Y Wefan (Safonau 55 – 59)

Ar hyn o bryd, mae'r brifysgol yn rhedeg prosiect i greu gwefan dwyieithog er mwyn cydymffurfio â'r safonau yma erbyn 1 Hydref 2019.

Mae holl olygwyr y wefan ar draws y brifysgol yn ymwybodol fod angen diweddaru tudalen neu greu tudalen newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Meddalwedd Gwirio Sillafu a Gramadeg (Safon 60)

Mae meddalwedd Cysgliad ar gael i bob myfyriwr ar gyfrifiaduron y gweithfannau cyhoeddus. Mae'r un feddalwedd ar gael ar gais i staff roi ar eu cyfrifiaduron swyddfa ac ar liniaduron a ddefnyddir at bwrpas gwaith.

## Apiau (Safonau 61)

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn gweithio i sicrhau fod yr apiau perthnasol yn ddwyieithog erbyn 1 Hydref 2019.

## Cyfryngau Cymdeithasol (Safonau 62 - 63)

Mae'r brifysgol wedi adnabod y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol rheiny y mae'n ystyried yn gyfrifon 'adrannol neu gorfforaethol'. Mae'r cyfrifon dynodedig yma'n gweithredu'n ddwyieithog.

Lluniwyd canllaw sy'n egluro sut i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol wrth weithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan yr Uned Gymraeg.

| Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 64) |
|---|

Ceir peiriannau hunanwasanaeth parcio ar y ddwy gampws. Mae'r rhain yn ddwyieithog.

| Arwyddion (Safonau 65 - 67) |
|---|

Sefydlwyd gweithdrefn o sicrhau fod pob arwydd yn ddwyieithog o dan amodau'r Cynllun Iaith ac mae'r weithdrefn honno'n parhau.

| Derbynfeydd (Safonau 68 - 72) |
|---|

Ceir arwydd ymhob derbynfa sy'n agored i'r cyhoedd ac mae'r staff dwyieithog sy'n gweithio yno yn gwisgo bathodyn i ddangos hynny.

| Hysbysiadau (Safonau 73 - 74) |
|---|

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei holl hysbysiadau yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uchaf neu i'r chwith o'r Saesneg.

| Grantiau (Safonau 75 - 79) |
|---|

Mae'r holl ddogfennaeth a'r weithdrefn ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am gymorth ariannol ar gael yn ddwyieithog.

| Contractau a ddyfernir i drydydd parti (Safonau 73 - 74) |
|---|

Wedi ymgynghori â'r swyddfa pwrcasu lluniwyd canllawiau ar gyfer tendro a chontractau trydydd parti sy'n egluro bod gan dendrwyr yr hawl i gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg ac i gael eu cyfweld yn Gymraeg. Anfonwyd y canllaw at y staff sy'n ymwneud â phwrcasu ac mae'r canllaw ar ein gwefan hefyd.

| Hysbysebu a Hybu (Safonau 85 - 86) |
|---|

Mae'r holl gyhoeddusrwydd a'r dogfennau a gynhyrchir gan y brifysgol yn hysbysebu'r gwasanaethau a gynigir gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

| Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 87) |
|---|

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn hollol ddwyieithog.

| Cyfleoedd Dysgu (Safonau 85 - 86) |
|---|

O ran cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd nad ydynt yn rhan o gwrs neu yn arwain at berfformiad, gellir cyfeirio at sesiynau'r Ysgol Gelf Agored. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn casglu data ar ddewis iaith rheiny sydd yn cofrestru ar y cyrsiau er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

| Asesiadau (Safonau 90- 90A) |
|---|

Bu gan fyfyrwyr y Brifysgol yr hawl i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg ers nifer o flynyddoedd ac mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn hwyluso hyn ers tro. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys pennu tiwtor cyfrwng Cymraeg o fewn yr un adran i farcio'r gwaith ac os nad yw hyn yn bosibl fe gyfieithir y gwaith i'r Saesneg i'w farcio. Mae'r tîm cyfieithu yn gyfarwydd iawn â chyfieithu gwaith academaidd fel hyn. Mae papurau arholiad cyfrwng Saesneg yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg hefyd fel y gall myfyriwr sefyll yr arholiad yn Gymraeg os yw'n dymuno.

| Cyhoeddiadau Cyhoeddus (Safon 91) |
|---|

Nid oes gan y brifysgol system cyhoeddiadau cyhoeddus.

| Llety Myfyrwyr (Safonau 92 - 92A) |
|---|

Mae tîm llety'r brifysgol yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddewis i fyw gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, Cynigir hyn fel rhan o broses ymgeisio am Neuadd Breswyl.

| Tiwtor Personol (Safon 93) |
|---|

Mae'r Brifysgol yn darparu tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg yn ddiofyn i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg. Pan nad oes modd pennu tiwtor o'r un adran fe bennir tiwtor iddynt o'r ysgol academaidd.

**<u>Safonau Llunio Polisi</u>**

| Penderfyniadau Polisi (Safonau 94 - 96) |
|---|

Mae Met Caerdydd wedi'i hymrwymo i asesu goblygiadau ieithyddol polisïau a mentrau newydd gyda'r bwriad o hyrwyddo'r Gymraeg ble'n bosibl.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Met Caerdydd yn gyfrifol am asesu effaith a chadarnhau unrhyw bolisïau a mentrau newydd. Mae Pennaeth yr Uned Gymraeg, fel aelod o'r pwyllgor hwn yn craffu pob un Asesiad Effaith.

Er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi, mae wedi ei chynnwys yn un o'r naw nodwedd warchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw effaith ar y Gymraeg yn cael ei hystyried ar draws y sefydliad.

| Ymgynghori (Safonau 97 - 99) |
|---|

Yn ystod proses ymgynghori ar benderfyniadau polisi mae'r Brifysgol yn ceisio barn am effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Gwneir hyn trwy gynnwys cwestiwn penodol am y Gymraeg, ochr yn ochr â chwestiynau eraill, yn y ddogfen ymgynghori, neu trwy ofyn y cwestiwn ar lafar mewn cyfweliad ymgynghori gydag unigolyn.

| Dyfarnu Grantiau (Safon 100) |
|---|

Wedi ystyried i ba raddau mae'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau, ac wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, penderfynwyd nad yw'r Brifysgol yn ymgymryd â gweithgaredd perthnasol sy'n gofyn am lunio polisi ar gyfer hyn am y tro.

| Comisiynu Ymchwil (Safonau 101 - 103) |
|---|

Ni fu'r Brifysgol yn ymwneud â chomisiynu ymchwil i gynorthwyo penderfyniad polisi yn ystod y cyfnod adrodd, fodd bynnag y bwriad yw defnyddio'r ffurflen Asesiad Effaith Iaith ar gyfer hyn. Mae'r canllaw polisïau yn cynnwys cyfeiriad at gomisiynu ymchwil.

| Cyrsiau Academaidd (Safon 104) |
|---|

Mae ystyried y ddarpariaeth Gymraeg wrth greu neu ddileu cyrsiau gradd yn rhan o'r weithdrefn eisoes ac yn ystod y cyfnod adrodd, pwyllgor cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Brifysgol ynghyd â'r Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am arolygu'r broses mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg.

**<u>Safonau Gweithredu</u>**

| Defnyddio'r Gymraebg o Fewn y Sefydliad (Safon 105) |
|---|

Mae'r Uned Gymraeg wrthi'n creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn y sefydliad ym Met Caerdydd. Bydd angen cymeradwyo'r polisi gan y pwyllgorau priodol cyn ei gyhoeddi ar wefan y brifysgol.

| Cyflogaeth (Safonau 106 – 111) |
|---|

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system electronig ar gyfer derbyn ceisiadau am swyddi, felly, mae'r ffurflen gais wedi'i gosod ar-lein. Gellir defnyddio'r system

yn Gymraeg ac mae'r ffurflen gais yn gofyn am ddewis iaith gohebiaeth yr ymgeisydd. Ychwanegwyd cwestiwn at y ffurflen sy'n gofyn i'r ymgeisydd nodi dewis iaith ar gyfer y cytundeb gwaith hefyd. Mae'r system yn galluogi staff i ddewis eu dewis iaith ar gyfer y cyfweliad /unrhyw ddull arall o asesu. Mae hefyd yn galluogi ymgeisydd os ydynt yn cael eu hapwyntio, i ddewis p'un a ydynt am dderbyn y ddogfennaeth ganlynol yn Gymraeg:

- Contract cyflogaeth
- Gohebiaeth papur sy'n ymwneud â'u cyflogaeth
- Dogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion hyfforddiant
- Dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad
- Dogfennau sy'n amlinellu neu'r cofnodi eu cynllun gyrfa.

Mae dewis iaith staff ar gyfer gohebiaeth yn cael ei gofnodi ar system cofnod staff hunanwasanaeth ESS, felly mae'r holl ddogfennaeth yn ymwneud â chyflogaeth y brifysgol yn cael eu darparu yn yr iaith y mae staff wedi'i ddewis.

| Polisïau Adnoddau Dynol (Safonau 112 – 118) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae 80% o'r rhai sy'n ymdrin â'r materion a restrir yn y Safonau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

| Cwynion am/gan staff (Safonau 119 – 122) |
|---|

Mae gan aelodau o staff y Brifysgol yr hawl i wneud achwyniad ffurfiol ac ymateb i gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Disgyblu Staff (Safonau 123 – 126) |
|---|

Mae gan staff yr hawl i ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol yn Gymraeg. Mae'r weithdrefn disgyblu yn datgan yr hawl honno a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod disgyblu.

| Sgiliau Cymraeg Staff (Safonau 127 a 134) |
|---|

Mae gan yr holl staff ddewis o ryngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron, ac mae pecynnau gwirio sillafu a gramadeg a geiriadur Cymraeg Cysgliad/Cysill ar gael i'r holl staff ar gais gan adran Gwasanaethau Gwybodaeth.

Cesglir data am sgiliau iaith staff wrth iddynt wneud cais am swydd gyda'r Brifysgol ac fe gofnodir hyn ar eu cofnod staff os cânt eu penodi. Gall staff presennol lenwi neu wirio'r blwch sgiliau iaith sydd ar eu cofnod staff. Anfonir negeseuon i atgoffa staff am hyn yn rheolaidd drwy'r system hunanwasanaeth ESS.

| Hyfforddiant i Staff (Safonau 135 – 137) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni chafwyd unrhyw gais i dderbyn modiwlau hyffroddiant staff drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfforddiant Iaith (Safonau 138 - 141)

Mae'r brifysgol yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac mae gan staff yr hawl i fynychu gwersi cynllun Cymraeg i Oedolion y brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, roedd 77 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer rhaglen Cymraeg i Oedolion y brifysgol, sydd yn cynrychioli cynnydd o hyd at 50% o'r flwyddyn ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae 62 aelod o staff yn mynychu'r gwersi yn rheolaidd (gyda 15 wedi tynnu allan am resymau amrywiol megis llwyth gwaith, salwch hirdymor, wedi gadael y brifysgol).

**Crynodeb o'r rhaglen**

| **Lefel astudio** | **Nifer y staff** |
|---|---|
| Mynediad 1 (Llandaf) | 15 |
| Mynediad 1 (Cyncoed) | 7 |
| Mynediad 2 (Llandaf) | 4 |
| Sylfaen 1 (Cyncoed/ Llandaf) | 11 |
| Sylfaen 2 (Llandaf) | 4 |
| Canolradd 1 (Cyncoed) | 8 |
| Canolradd 2 (Llandaf) | 5 |
| Uwch (Llandaf) | 8 |
| | **62** |

Llofnod a negeseuon ebost (Safonau142 – 144A)

Anogir staff i ddefnyddio llofnod e-bost dwyieithogi ddangos eu bod yn medru neu yn dysgu'r Gymraeg, neu'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Disgwylir i staff osod negeseuon dwyieithog wrth lunio e-bost allan o'r swyddfa a cheir canllaw ar gyfer hyn ar ein gwefan.

Dosbarthwyd bathodynnau a chortynnau gwddf Iaith Gwaith a Dysgwr yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd.

Swyddi (Safonau 145 – 149)

Rheolwyr yr Ysgolion ac Unedau sydd yn gyfrifol am asesu swyddi unigol o ran gofynion yr iaith Gymraeg. Gellir gwneud hyn drwy gwblhau ffurflen staffio.

Hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi un ai bod lefel benodol o'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol.

Mae’r brifysgol yn defnyddio system ymgeisio am swyddi ar-lein, felly, mae’r ffurflen ymgeisio ar-lein. Mae’r system hwn yn hollol ddwyieithog.

| Arwyddion (Safonau 150 – 153) |
| --- |

Sefydlwyd gweithdrefn o sicrhau fod pob arwydd yn ddwyieithog o dan amodau’r Cynllun Iaith ac mae’r weithdrefn honno yn parhau, ac wedi’i diweddaru i adlewyrchu gofynion y Safonu, fod y Gymraeg yn ymddangos gyntaf.

**<u>Safonau Cadw Cofnodion</u>**

| Cwynion (Safonau 154 – 156) |
| --- |

Pwrpas Gweithdrefn Gwyno’r Brifysgol yw darparu llwybr ffurfiol y gall myfyriwr, aelod staff neu’r cyhoedd gyflwyno cais at sylw’r brifysgol. Mae’r weithdrefn hwn ar gael yn ddwyieithog.

Cyflwynir adroddiad ffurfiol cwynion yn flynyddol i’r Bwrdd Academaidd ac i Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys data monitro ar y nifer o siaradwyr i gyflwyno cwynion yn ystod y flwyddyn, y nifer o gwynion yn ymwneud å’r Gymraeg ac unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i’r broses fonitro.

Er mwyn cefnogi unrhyw un sydd yn dymuno cyflwyno cwyn drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Pennaeth yr Uned Gymraeg wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymchwilio cwyn.

Derbyniwyd 1 cwyn mewn perthynas â’r Safonau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Cedwir cofnod a manylion cwynion a dderbynnir gan swyddog cwynion y Brifysgol a gweithredir y weithdrefn gwynion wrth ymdrin â hwy.

| Polisïau (Safon 157) |
| --- |

Defnyddiwyd yr erfyn ar gyfer asesu’r effaith ar y iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniad polisi, sef y Ffurflen Asesu Effaith yr iaith Gymraeg 3 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

| Sgiliau Iaith Cymraeg (Safon 158) |
| --- |

Er mwyn paratoi ar gyfer y Safonau Cymraeg, mae’r Brifysgol wedi meincnodi’r ffordd y mae’n asesu sgiliau iaith ei staff yn erbyn mecanweithiau a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, mabwysiadwyd dull newydd o asesu sgiliau iaith Cymraeg y staff. Mae gan y fframwaith newydd hwn 5 lefel yn seiliedig ar ddatganiadau sydd yn unol â’r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer dysgu ieithoedd, yn ogystal â fframwaith Cymraeg i Oedolion CBAC.

Anfonwyd arolwg i'r holl aelodau staff yn gofyn iddynt asesu eu sgiliau iaith Cymraeg yn erbyn y fframwaith newydd ynghyd â rhai cwestiynau ychwanegol am eu dyheadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Cwblhaodd 816 aelod o staff yr arolwg, bron i 60% o holl staff Met Caerdydd.

**Y gallu i siarad Cymraeg**

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu | 62.99% | 514 | 163 | 316 | 35 |
| Gallaf gynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg | 23.28% | 190 | 54 | 119 | 17 |
| Gallaf gynnal sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith syml | 2.33% | 19 | 7 | 12 | 0 |
| Gallaf siarad Cymraeg mewn rhai sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith | 1.96% | 16 | 4 | 12 | 0 |
| Gallaf siarad Cymraeg mewn rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith | 2.45% | 20 | 5 | 15 | 0 |
| Rwy'n rhugl | 6.99% | 57 | 31 | 22 | 4 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

**Y gallu i ddeall Cymraeg**

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu | 44.49% | 363 | 127 | 214 | 22 |
| Gallaf ddeall rhannau o sgwrs sylfaenol | 30.76% | 251 | 67 | 161 | 23 |
| Gallaf ddeall sgyrsiau sylfaenol ynglyn â phynciau pob dydd | 12.01% | 98 | 25 | 66 | 7 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gallaf ddeall sgyrsiau sy’n gysylltiedig â gwaith arferol | 2.82% | 23 | 7 | 16 | 0 |
| Gallaf ddeal y rhan fwyaf o sgyrsiau sy’n gysylltiedig â gwaith | 1.84% | 15 | 5 | 10 | 0 |
| Gallaf ddeall pob sgwrs sy’n gysylltiedig â gwaith | 8.09% | 66 | 33 | 29 | 4 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

**Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg**

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu | 66.54% | 543 | 175 | 330 | 38 |
| Gallaf ysgrifennu negeseuon sylfaenol am bynciau bob dydd | 20.47% | 167 | 44 | 109 | 14 |
| Gallaf ysgfrifennu gohebiaeth syml sy’n gysylltiedig â gwaith arferol gyda bwriad | 3.92% | 32 | 10 | 21 | 1 |
| Gallaf baratoi deunydd sy’n gysylltiedig â gwaith arferol gyda gwiriad | 2.45% | 20 | 7 | 12 | 1 |
| Gallaf baratoi’r mwyafrif o’r gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg | 2.21% | 18 | 7 | 10 | 1 |
| Gallaf baratoi deunydd ysgrifenedig ar gyfer yr holl | 4.41% | 36 | 21 | 14 | 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| faterion sy'n gysylltiedig â gwaith | | | | | |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

**Y gallu i ddarllen yn Gymraeg**

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu | 43.50 % | 355 | 126 | 209 | 20 |
| Gallaf ddarllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth | 32.35 % | 264 | 72 | 169 | 23 |
| Gallaf ddarllen deunydd syml ar bynciau pob dydd gyda dealltwriaeth | 10.05 % | 82 | 18 | 56 | 8 |
| Gallaf ddarllen rhywfaint o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith arferol gyda chymorth e.e. geiriadur | 4.41 % | 36 | 10 | 25 | 1 |
| Gallaf ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd sy'n gysylltiediog â gwaith | 3.19 % | 26 | 9 | 15 | 2 |
| Gallaf ddeall yn llawn yr holl deunydd sy'n gysylltiedig â gwaith | 6.50 % | 53 | 29 | 22 | 2 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

| Hyfforddiant Staff (Safon 159) |
|---|

Mae'r Brifysgol yn cynnig pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth iaith i holl staff y brifysgol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Safonau Cymraeg, y rhesymau pam fod pobl yn siarad Cymraeg a hefyd pam eu bod yn dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pecyn hyfforddi hefyd yn cynnwys y

nifer o staff a myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, Caerdydd a Met Caerdydd ynghyd â'r gofynion i Met Caerdydd fel sefydliad.

| Swyddi (Safonau 161 - 162) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, hysbysebwyd 317 o swyddi, ac o'r rhain:

• hysbysebwyd 7 swydd â sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.
• hysbysebwyd 129 swydd â sgilliau Cymraeg yn ddymunol.
• hysbysebwyd 181 swydd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Noder nad yw'r ffigyrau yma'n cynnwys swyddi a gafodd eu hail-hysbysebu.

**Safonau Atodol**

| Dogfen Safonau Iaith (Safonau 163, 169, 175, 181) |
|---|

Mae'r Uned Gymraeg wrthi'n creu'r polisi mewnol 'Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle ym Met Caerdydd'.

| Gweithdrefn Gwyno (Safon 164, 170, 176,) |
|---|

Mae gennym weithdrefn gwyno ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg. Cyhoeddir y weithdrefn hon ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais ym mhob un o'r swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd. Gellir cwyno trwy ddefnyddio ffurflen electronig rhyngweithiol sydd ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Brifysgol drwy e-bost, llythyr neu alwad ffôn. Cyfeiriwyd at y weithdrefn gwyno, gan gynnwys prosesau'r Comisiynydd o ddelio â chwynion, yn y cyflwyniadau am y Safonau Iaith i staff.

| Monitro (Safonau 165, 171, 177,) |
|---|

Mae Swyddog y Gymraeg ynghyd â Phennaeth yr Uned Gymraeg yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae'r brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg. Y Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr sydd a chyfrifoldeb dros oruchwylio gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg y brifysgol.

Mae'r brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, sydd a chyfrifoldeb ar gyfer monitro cynnydd y Safonau Iaith. Mae'r pwyllgor hon yn yn o uwch-bwyllgorau'r Brifysgol sydd yn cwrdd unwaith bob tymor, ac yn derbyn adroddiadau gan yr Umned Gymraeg ar weithredu a monitro'r Safonau Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Bwyllgor Cynllunio Strategol y Brifysgol a Bwrdd ac i Fwrdd y Llywodraethwyr.

| Adroddiad Blynyddol (Safonau 166, 168, 172, 178, 180, 182) |
|---|

Ar gyfer ein hadroddiad cyntaf gofynnwyd i ni adrodd am y cyfnod ers dechrau gweithredu'r Safonau hyd at ddiwedd ein blwyddyn ariannol, sef o 1 Ebrill 2018 i 31 Awst 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- nifer y cwynion a dderbyniwyd
- nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg
- nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg
- nifer y swyddi newydd a gwag ynghyd â'u categori parthed gofynion sgiliau iaith Gymraeg

| Dogfen Cydymffurfio (Safonau 167, 173, 178, 179) |
|---|

Mae'r ddogfen *Safonau Iaith Prifysgol Metropolitan Caerdydd* yn egluro sut yr ydym yn cydymffurfio â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a'r myfyrwyr.